



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020**

---

**Canllawiau Gwerthuso ar gyfer Prosiectau Cynllun  
Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi**

**Ionawr 2018**

E-bost y Gangen Strategaeth: [RDPM&E@wales.gsi.gov.uk](mailto:RDPM&E@wales.gsi.gov.uk)

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Adran 1: Cyd-destun gwerthusiad 2014-2020 .....	4
1.1.    Diben y Gwerthusiad .....	4
1.2    Gofynion gwerthuso Llywodraeth Cymru.....	5
1.4    Cynllunio eich Gwerthusiad .....	6
Adran 2: Amcanion a Chwestiynau Ymchwil .....	7
2.1 Nodau ac Amcanion.....	7
2.2    Datblygu model rhesymeg .....	10
2.3    Cwestiynau Ymchwil a'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig.....	12
Adran 3: Gofynion Data .....	16
3.1    Data sydd eisoes ar gael .....	16
3.2    Data Sylfaenol.....	18
3.3    Casglu Data Newydd .....	19
3.3.2    Cysylltu â'ch cyfranogwyr .....	23
Adran 4: Comisiynu a rheoli'r gwerthusiad .....	24
4.1    Cyn Comisiynu eich Gwerthusiad .....	24
4.2    Manyleb .....	26
4.3    Comisiynu'r Contract.....	29
4.4    Rheoli'r contract .....	30
4.5    Templed adroddiad.....	30
4.6    Derbyn yr adroddiad a Sicrwydd Ansawdd.....	32
4.7    Defnyddio canlyniadau'n effeithiol .....	32

### **Rhestr o dablau ac atodiadau**

*Tabl 1 – Enghraifft o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin – Blaenoriaeth 6A*

*Tabl 2 – Rhestr o Ddulliau Ymchwil*

*Tabl 3 – Cyfrifoldebau o ran rheoli ansawdd y gwerthuso*

*Tabl 4 – Templed manyleb*

*Atodiad 1 – Canllawiau pellach*

*Atodiad 2 – Rhestr o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin cysylltiedig â Meysydd*

*Pwyslais.*

*Atodiad 3 – Amserlen Gwerthuso RhDG 2014-2020*

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ynglŷn â gwerthuso prosiectau Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae canllawiau unigol ynglŷn â monitro a'r dangosyddion perfformiad sy'n benodol ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – RhDG 2014-2020 wrthi'n cael eu datblygu a byddant ar gael yn y dyfodol.

Mae pedair adran i'r canllaw hwn:

- **Adran 1:** sy'n egluro'r rhesymeg dros werthuso'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi ac yn gosod y gwerthuso yng nghyddestun gofynion y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi sylw i faterion cyffredin ynglŷn â gwerthuso yng nghyddestun y RhDG
- **Adran 2:** sy'n amlinellu pwysigrwydd diffinio amcanion eich gwerthusiad yn glir, a phenderfynu ar gwestiynau ymchwil priodol i lywio'ch gwaith. Mae'n cynnwys disgrifiadau o sut i fynd ati i werthuso effaith ac adran ar fodelu rhesymeg.
- **Adran 3:** sy'n archwilio'r gofynion data a'r dulliau ymchwil ar gyfer gwerthuso'ch prosiect. Mae'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â monitro data, y gwaelodlin, y gwahaniaeth rhwng ymchwil meintiol ac ansoddol, a throsolwg o rai dulliau ymchwil allweddol.
- **Adran 4:** sy'n cynnwys gwybodaeth ymarferol ynglŷn â llunio, comisiynu, gweithredu a rheoli'r contract gwerthuso. Mae hyn yn cynnwys manyleb safonol ar gyfer gwerthusiadau a thempled adroddiad enghreifftiol.

## **Adran 1: Cyd-destun gwerthusiad 2014-2020**

Mewn ymateb i sylwadau a gafwyd yn y rhaglen flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi newid sut mae'n mynd ati i fonitro a gwerthuso Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – RhDG 2014-2020. Bellach mae llai o ddangosyddion nag yn y cyfnod blaenorol fel y gall prosiectau ganolbwyntio ar gasglu data manylach. Gofynnir i brosiectau hefyd gasglu manylion cyswllt manwl-gywir gan gyfranogwyr fel y gellir cynnal arolygon gyda buddiolwyr prosiectau er mwyn ymchwilio i'r rhesymau dros effeithiau ehangach yr hyn a wnaed. Gwerthusiadau fydd y prif fodd o adrodd ynglŷn ag unrhyw fanteision ychwanegol sy'n deillio o ymyraethau'r prosiect nad ydynt wedi eu cynnwys yn y system ddangosyddion. Bydd cyflwyno templedi safonol yn gymorth i gyfuno canfyddiadau'r gwerthusiad yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Yn ychwanegol at hyn, bydd gan Rwydwaith Gwledig Cymru fwy o ran wrth ddsbarthu adroddiadau gwerthuso.

Rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn arwain at system fonitro a gwerthuso gyfrannol a fydd yn gallu crisialu effeithiau ehangach gweithgareddau yn fwy effeithiol. Canlyniad hyn fydd ei gwneud hi'n haws casglu tystiolaeth fydd yn dangos cryfderau a gwendidau ymyraethau ledled Cymru.

### **1.1. Diben y Gwerthusiad**

Prif ddiben gwerthuso yw dysgu rhywbeth am brosiect, cynllun neu raglen. Mae a wnelo gwerthuso ag ymchwilio sut y cynhaliwyd gweithgareddau a wnaed yn rhan o gynllun, ac effaith y gweithgareddau hynny. Mae'n pwysu a mesur y rhesymau ynglŷn â pham y cyflawnwyd dangosyddion ai peidio, a'r graddau y mae modd priodoli'r deilliannau a'r canlyniadau yn uniongyrchol i weithgareddau'r prosiect. Mae gwerthusiadau hefyd yn mynd i'r afael â chwestiynau ynglŷn ag ansawdd yr ymyraethau ac yn ystyried ffactorau cyd-destunol a allai fod wedi effeithio ar lwyddiant gweithgaredd.

Mae gwerthusiadau yn taflu goleuni ar ba un a yw ymyrraeth wedi gweithio ai peidio a ble mae hi'n bosib gwella. Gallant hefyd fod yn arwydd cynnar o

unrhyw agweddau allai alluogi prosiectau i newid arferion yn gynnar os oes angen. Maent felly'n galluogi rheolwyr prosiect i wella sut y caiff eu prosiectau eu dylunio a'u gweithredu. Yn fwy cyffredinol mae gwerthusiadau yn cefnogi'r bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru i wella polisïau a strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth

## **1.2 Gofynion gwerthuso Llywodraeth Cymru**

Mae hi'n bwysig gwerthuso prosiect oherwydd mae prosiectau yn esgor ar wybodaeth a chysylltiadau gwerthfawr, ac yn rhoi gogwydd ymarferol i'r broses fonitro a gwerthuso yn eu maes targed. Dylai prosiectau felly wneud y canlynol:

- Monitro a gwerthuso eu gweithgarwch eu hunain.
- Cymryd rhan mewn rhaglenni gwerthuso Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – RhDG 2014-2020 <sup>1</sup>

Yr arfer gorau yw trefnu i werthuswyr sy'n annibynnol ar dîm cyflawni'r prosiect wneud y gwaith gwerthuso. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau bod canlyniadau ac argymhellion yn ddi-duedd. O ganlyniad, dylai pob prosiect a ariennir drwy'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi gynnwys gwerthusiad allanol annibynnol o weithgarwch y prosiect. Os yw prosiect yn dymuno mynd ati mewn ffordd arall, cysylltwch â'r Gangen Strategaeth i drafod a chytuno ar hyn.

**Dylai gweithgareddau gwerthuso fod yn gymesur â graddfa'r prosiect a werthusir.** Oherwydd natur amrywiol y prosiectau sy'n cael eu darparu drwy'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi, nid oes gan y canllaw hwn y cwmpas i fanylu ynglŷn â sut orau i fynd ati gyda phob prosiect gwahanol. Nid oes unrhyw 'ddull safonol' i werthuso. Mae hi'n bwysig felly fod pob prosiect yn ystyried eu gofynion gwerthuso eu hunain.

Anogir prosiectau i adolygu gwerthusiad lefel rhaglen y Cynllun Effeithlonrwydd Cadwyni Cyflenwi, a gwerthusiadau lefel prosiect o

---

<sup>1</sup> Gweler Atodiad 3 ar gyfer Amserlen Gwerthuso Rhaglen 2014-2020

weithgarwch tebyg a gynhaliwyd yn ystod Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013<sup>2</sup>.

Gall y Gangen Strategaeth gynorthwyo gyda dyfeisio manylebau gwerthuso, cynghori ynglŷn â methodoleg, bod yn rhan o baneli sgorio tendrau ar gyfer contractau gwerthuso, a gwneud sylwadau ynglŷn ag adroddiadau ymchwil drafft. Cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol drwy e-bostio [RDPM&E@wales.gsi.gov.uk](mailto:RDPM&E@wales.gsi.gov.uk).

#### **1.4 Cynllunio eich Gwerthusiad**

Mae hi'n bwysig eich bod yn ystyried gofynion gwerthuso eich prosiect o gamau cynharaf ei ddatblygiad. Mae cynllunio pa weithgareddau y bydd angen eu cynnal yn sicrhau y gwerthusir ar yr adeg briodol a bod amser ac adnoddau digonol ar gael i ganiatáu cwblhau'r gwerthusiad i ansawdd digonol.

Wrth baratoi i werthuso dylech wneud y canlynol:

1. Ystyriwch ddiben y gwerthusiad a chanlyniadau arfaethedig y gwaith gwerthuso (er enghraifft, oes arnoch chi eisiau gwybod a gafodd y prosiect ei reoli'n dda? Neu ynglŷn â chanlyniadau uniongyrchol i'r rhai a gymerodd ran? Neu ynglŷn â chanlyniadau ac effeithiau mwy eang y tu hwnt i'r rhai a gymerodd ran uniongyrchol. Ymdrinnir yn fwy manwl â'r dewisiadau hyn yn Adran 2 isod);
2. Datblygwch gwestiynau gwerthuso sy'n benodol i'r prosiect ac yn gysylltiedig â nodau ac amcanion y prosiect; darganfyddwch y cysylltiadau gyda'r dangosyddion ac â'r cwestiynau gwerthuso cyffredin;
3. Adolygwch y ffyrdd posib o fynd ati i asesu'r canlyniadau a'r effeithiau (ar gyfer y gwerthusiadau terfynol) a dewiswch ddulliau/trefn werthuso awgrymedig;
4. Canfyddwch beth yw'r gofynion o ran data a sut y dylid casglu'r data hwnnw. Dylid casglu data ar ddiwyg electronig, a'i gadw a'i rannu'n ddiogel; sicrhewch fod y trefniadau ar gyfer casglu a chadw data yn

---

<sup>2</sup> Ceir enghreifftiau o werthusiadau Cynllun Effeithlonrwydd Cadwyni Cyflenwi Iefel Prosiect ar wefan Rhwydwaith Cymru Wledig, yma: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/publications/?skip=1&lang=cy>

cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data<sup>3</sup> ac, o 2018, â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol<sup>4</sup>;

5. Paratowch rybuddion a chytundebau preifatrwydd sy'n caniatáu rhannu'r data fel bo angen ar gyfer y gwerthusiad;
6. Canfyddwch y gyllideb sydd ei hangen a threfniadau llywodraethu'r prosiect;
7. Paratowch fanyleb a chynlluniwch drefniadau tendro (os mai gwerthuswyr allanol fydd yn gwerthuso). Mae templed manyleb ar gael yn Adran 3.3; a
8. Lluniwch gynllun cyfathrebu er mwyn rhannu canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad.

Mae strwythur gweddill y ddogfen hon fel a ganlyn:

Ymdrinnir â phwyntiau 1 a 2 ynglŷn â'r amcanion ymchwilio a'r cwestiynau ymchwil yn Adran 2

Ymdrinnir â phwyntiau 3, 4 a 5 ynglŷn ag argaeledd data a'r dewisiadau o ran dulliau ymchwilio yn Adran 3

Ymdrinnir â phwyntiau 6, 7 ac 8 ynglŷn â chomisiynu a rheoli'r gwerthusiad yn Adran 4.

## **Adran 2: Amcanion a Chwestiynau Ymchwil**

Mae Adran 2 yn ystyried yr amcanion a'r cwestiynau ymchwil ar gyfer eich gwerthusiadau. Mae Adran 2.1 yn ymwneud â llunio nodau ac amcanion eich ymchwil a'r mathau gwahanol o werthuso y gallwch eu hystyried. Mae Adran 2.2 yn rhoi trosolwg o bwysigrwydd modelau rhesymeg wrth ystyried gofynion eich gwerthusiad. Mae Adran 2.3 yn rhoi sylw i ddewis cwestiynau ymchwil a'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

### **2.1 Nodau ac Amcanion**

Wrth feddwl am eich gwerthusiad mae angen syniad clir arnoch chi o'r hyn y mae arnoch chi eisiau ei ddarganfod o'r ymchwil a sut y caiff y canfyddiadau eu gwerthuso. Hwyrach y gall hyn fod er mwyn asesu effaith eich prosiect neu i ddeall pa mor dda y cafodd eich prosiect ei weithredu. Mae hi'n bwysig bod

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents>

<sup>4</sup> <https://ico.org.uk/for-organisations/data-protection-reform/>

nodau'r gwerthusiad yn eglur oherwydd mae hyn yn diffinio pwyslais a chwmpas y gwaith, ac mae hi felly'n bwysig bod yr amcanion hyn yn realistig ac yn gymesur â'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer yr ymarferiad. Yn fras mae pedwar math o werthusiad y gellir eu hystyried:

- **Gwerthusiad sylfaenol:** gellir defnyddio'r math hwn o werthusiad i gasglu data, cyn i'r prosiect ddechrau, ynglŷn â nodweddion y bobl neu'r sefydliadau y disgwylir y bydd y prosiect o fudd iddynt. Pan fo'r prosiect ar ben, gellir defnyddio'r data sylfaenol hwn i asesu a yw sefyllfa'r buddiolwyr wedi newid dros gwrs y prosiect. Sylwer nad yw casglu data "cyn ac ar ôl" yn ddigonol i ddangos bod prosiect wedi *achosi* unrhyw newidiadau. Ar gyfer hyn byddai angen inni wneud gwerthusiad effaith (a ddisgrifir isod). Fodd bynnag, mae casglu data sylfaenol yn gam cyntaf pwysig. Mae hi'n bwysig gwneud hyn yn syth ar ddechrau'r prosiect.
- **Gwerthusiadau proses:** mae'r rhain yn canolbwyntio ar sut y caiff prosiect ei ddarparu. Ymysg pethau eraill, gall gwerthusiadau proses fod o gymorth i sefydlu a yw'r prosiect yn gweithio yn unol â chynlluniau'r sawl a'i dyluniodd, a yw'r rhai sy'n rhan o'r prosiect yn credu ei fod yn gweithio'n effeithiol a helpu i ganfod arferion da a gwael yn y ddarpariaeth. Mae gwerthusiadau prosiect yn tueddu i gynnwys dadansoddiad o ddata monitro a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol.
- **Gwerthusiadau effaith:** bydd y rhain yn cloriannu effaith y prosiect pan fo'r ymyraethau wedi eu rhoi ar waith. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwersi sydd efallai angen eu dysgu ar gyfer y dyfodol er mwyn cynnal gweithgarwch tebyg yn fwy effeithiol.
- **Gwerthusiadau parhaus:** mae modd i'r rhain roi cymorth a chynghor parhaus mewn modd rhagweithiol, yn hytrach na rhoi darlun o lwyddiannau'r rhaglen ar adegau penodol. Gall mynd ati yn y modd hwn fod o gymorth i adnabod anghenion data yn gynnwys yng nghwrs y prosiect a fydd o gymorth gyda chamau olaf y gwerthusiad. Fodd bynnag, os penderfynir mynd ati fel hyn mae angen i brosiectau fod yn



realistig ynglŷn â faint o ymwneud maen nhw'n ei ddisgwyl gan werthuswyr, oherwydd mae'r dull hwn yn gofyn am gyfran briodol o adnoddau.

Yn ymarferol, mae hi'n debygol y bydd gwerthusiadau yn cynnwys cyfuniad o'r ddau ddull hwn. Wrth feddwl ynglŷn â'r mathau hyn o werthusiadau mae hi'n werth nodi bod nifer o werthusiadau blaenorol wedi tueddu i ganolbwyntio ar werthusiadau proses. Fodd bynnag, yn y dyfodol, rhoddir mwy o bwyslais ar werthuso effaith prosiectau. Mae modd gwerthuso effaith prosiect mewn dwy brif ffordd - Gwerthusiad Effaith Gwrthffeithiol a Gwerthusiad Effaith Damcaniaethol.

**Gwerthusiadau Effaith Gwrthffeithiol:** mae'r rhain yn defnyddio grwpiau rheoli i helpu asesu effaith ymyrraeth. Yn ei ffurf symlaf, mae Gwerthusiad Effaith Gwrthffeithiol yn cymharu grŵp o gyfranogwyr neu fusnesau sydd wedi cael cymorth (y grŵp triniaeth) gyda grŵp arall sydd â nodweddion tebyg nad ydyn nhw wedi cael cymorth (y grŵp rheoli). Mae'r grŵp rheoli yn taflu goleuni ar yr hyn a fyddai wedi digwydd i'r grŵp triniaeth pe na byddent wedi cymryd rhan yn y prosiect h.y. yr achos 'gwrthffeithiol', sy'n gymorth i ganfod effaith yr ymyrraeth. Er y gall hyn ddangos effaith yr ymyrraeth byddai angen ei ategu gyda gwaith gwerthuso pellach i ddangos pam neu sut weithiodd yr ymyrraeth. Nid yw Gwerthusiadau Effaith Gwrthffeithiol yn addas i bob prosiect oherwydd:

- maen nhw'n ddrud i'w cynnal
- mae angen grwpiau rheoli clir arnyn nhw sy'n debyg i'r grwpiau sy'n derbyn yr ymyrraeth (yn ymarferol nid yw hyn wastad yn bosib),
- mae angen data digonol a chadarn ar y grŵp rheoli a'r grŵp triniaeth
- maen nhw'n llai addas ar gyfer prosiectau cymhleth gydag amcanion prosiect lluosog.

**Gwerthusiadau Effaith Damcaniaethol:** bwriad y rhain yw asesu effaith prosiect drwy ddadansoddi'r ddamcaniaeth a'r rhagdybiaethau y mae'r prosiect yn seiliedig arnynt, a defnyddio gwaith ymchwil i asesu a yw'r ddamcaniaeth a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn gywir. Un o'r prif ragdybiaethau y bydd gwerthusiad o'r math hwn yn rhoi prawf arno yw bod y prosiect yn cael


yr effaith ddisgwyliedig. Er nad yw Gwerthusiad Effaith Damcaniaethol mor gadarn â Gwerthusiad Effaith Gwrthffeithiol, maent yn fwy hyblyg ac mae ganddynt lai o rag-amodau. Fodd bynnag, oherwydd y dibynadwyedd ar ddamcaniaeth yr ymyrraeth mae angen cael rhesymeg ymyrraeth glir, gryno a phenodol i'ch prosiect. Argymhellir felly eich bod yn llunio model rhesymeg prosiect sy'n gymorth ichi wneud hyn (gweler isod). Ymhellach, mae Gwerthusiadau Effaith Damcaniaethol yn gwneud mwy na rhoi awgrym a fu effaith ai peidio – maent hefyd yn ceisio deall pam neu sut mae ymyrraeth wedi gweithio.

## **2.2 Datblygu model rhesymeg**

Mae model rhesymeg yn gymorth i brosiect lunio a mireinio rhesymeg weithdrefnol eu hymyrraeth a fydd, yn ei dro, yn gymorth ichi feddwl am eich gwerthusiad. Mae model rhesymeg synhwyrol yn egluro rhesymeg prosiect – pam mae ei angen, beth fydd yn ei wneud a beth mae'n bwriadu ei gyflawni fel canlyniad. Argymhellir bod pob prosiect yn datblygu model rhesymeg ar ddechrau'r prosiect. Mae model rhesymeg yn cynnwys chwe cham:


1. Nodwch amcanion cyffredinol a chyd-destun yr ymyrraeth
2. Nodwch yr holl adnoddau fydd yn cael eu cyfeirio i'r prosiect gan gynnwys adnoddau ariannol, adnoddau dynol ac adnoddau trefnu.
3. Amlinellwch y gweithgareddau fydd yn digwydd yn ystod y prosiect megis nifer y cyrsiau hyfforddi neu weithdai
4. Nodwch y canlyniadau y byddwch yn eu cofnodi ar gyfer y prosiect, er enghraifft, pobl yn mynd ar gyrsiau hyfforddi, busnesau a gefnogir
5. Nodwch y canlyniadau tymor byr yr ydych chi'n rhagweld y prosiect yn eu cyflawni
6. Nodwch amcanion mwy hir dymor y prosiect

## Logic Models



## Modelau Rhesymeg

Canlyniadau net ar ôl dileu'r dylanwadau oni bai am y polisi



Mewnbwn	Gweithgareddau	Allbwn	Canlyniadau tymor byr	Canlyniadau tymor hir
Cyllid gan y Llywodraeth  Staff y prosiect	Pecynnau gwybodaeth 'Active Commuting'  Codi ymwybyddiaeth drwy gyfrwng busnesau a meddygon teulu  Datblygu gwefan	Nifer y pecynnau gwybodaeth a ddsbarthwyd  Nifer y cyflogwyr a Meddygon Teulu wedi cofrestru ar gyfer digwyddiadau codi ymwybyddiaeth  Nifer y bobl wedi bod ar y wefan	Mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision cerdded a llwybrau cerdded diogel.  Mwy o bobl yn cerdded i'r gwaith  Llai o dagfeydd traffig	Llai o ddyddiau salwch  Iechyd gwell ymysg y bobl sydd mewn gwaith  Mwy o gyflogwyr wedi cofrestru ar y cynllun 'Cerdded i'r Gwaith'  Manteision ehangach i'r amgylchedd ac i gynhyrchiant economaidd

Darbodusrwydd

Effeithlonwydd

Wrth ddatblygu eich model rhesymeg dylech amlinellu'r camau hyn mor glir ac mor gryno â phosib, gan egluro'r amodau neu'r rhagdybiaethau sylfaenol rhwng pob cam. Bydd yr ymarfer llunio rhesymeg yn eich galluogi i ganolbwyntio ar resymeg weithredol y prosiect fydd yn ei dro yn gymorth i lunio amcanion y gwerthusiad, ac ar ôl hynny, pa ddyluniad a dulliau ymchwilio i'w defnyddio. Pan ddaw hi'n bryd gwerthuso'ch prosiect, bydd yr ymarferiad hwn yn gymorth i asesu a weithiodd eich prosiect fel y bwriadwyd iddo, ac a gyflawnodd ei amcanion.

Mae nifer o fodolau rhesymeg cyffredinol ar gael i gyfeirio atynt yn y

Magenta Book: <https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book>

### **2.3 Cwestiynau Ymchwil a'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig**

Rhan allweddol o'ch gwerthusiad yw datblygu cwestiynau ymchwil addas sy'n ganllaw i'r ymchwil. Dylai'r cwestiynau ymchwil hyn ddeillio o amcanion a gorchwylion eich prosiect ac fe ddylent gyfateb i amcanion cyffredinol eich gwerthusiad. Dylai canfyddiadau'r gwerthusiad ateb y cwestiynau hyn yn glir, roi barn resymegol i'r archwilwyr (yn hytrach na barn bersonol) ac mae'n rhaid iddynt gael eu cefnogi gan y dystiolaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn rhan o'r gwerthusiad. Wrth benderfynu pa gwestiynau i'w gofyn mae hi'n bwysig eu bod yn benodol, wedi eu diffinio'n glir a bod modd eu hateb.

Bydd y cwestiynau a ddewisiwch yn dibynnu, mae'n debyg, ar y math o werthusiad yr ydych chi'n ei chomisiynu:


- Bydd gwerthusiad sylfaenol, er enghraifft, efallai yn mynd i'r afael â chwestiynau ynglŷn â'r angen am y prosiect, nodweddion economaidd-gymdeithasol y boblogaeth, neu'r dyluniad sampl priodol. Diben y sylfaen yw rhoi gwerth cyfeiriol y gellir mesur targedau yn ei erbyn.
- Gwneir gwerthusiad proses fel arfer yn rhan o werthusiad hanner ffordd neu derfynol pan fo digon o weithgarwch wedi digwydd i asesu'r prosiect. Mae prosesau gwerthuso yn rhoi sylw i gwestiynau sy'n ymwneud â chynnydd y prosiect o ran cyflawni ei ddangosyddion, ei

nodau a'i amcanion, pa mor effeithiol yw rheolaeth a phrosesau'r prosiect, a gwneud argymhellion ynglŷn ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella.

- Mae gwerthusiad proses fel arfer yn digwydd tuag at ddiwedd y proses ac yn ymwneud â chwestiynau sy'n berthnasol i effaith yr ymyrraeth ynghyd ag adlewyrchu ar yr hyn a weithiodd yn dda (neu fel arall), pam a sut.

Wrth ddatblygu eich cwestiynau ymchwil fe all hi fod yn ddefnyddiol cyfeirio at eich model rhesymeg oherwydd bydd o gymorth i ddatblygu cwestiynau gwerthuso priodol sy'n berthnasol i gamau penodol eich prosiect. Wrth edrych ar bob cam o fodel rhesymeg a'r rhagdybiaethau a wnaed rhwng bob cam, mae modd penderfynu ar gwestiynau ymchwil perthnasol fel mae'r darlun isod yn dangos.

### From logic modelling to evaluation questions



Adapted from Magenta Book (2011) Box 2c

## O fodelu rhesymeg i gwestiynau gwerthuso

Cronfa o bobl ddi-waith tymor hir gyda diffyg sgiliau	Dod o hyd i leoliadau gwaith. Cwblhau hyfforddiant	Gwella cymwysterau a sgiliau yn y gweithle	Mynd i gyfweiliadau a chael cynnig swyddi	Cynyddu swyddi ac incwm	Lleihau'r niferoedd di-waith
Sut gafodd pobl eu recriwtio i'r cynllun	Faint o bobl gwblhaodd y cynllun	Pa newid a fu ym medrau a chymwysterau'r rhai a gymerodd ran	Pa fath o swyddi a gynigiwyd i'r rhai a gymerodd ran  Beth oedd nodweddion y rhai oedd yn mynd i gyfweiliadau ac yn cael cynnig swyddi	Faint o swyddi? Pa fath o swyddi? Incwm y rhai a gymerodd ran?	A fu lleihad yn y niferoedd di-waith y gellir ei briodoli i'r prosiect hwn?  A fu unrhyw gynnydd mewn GYG/CDG o ganlyniad i'r prosiect?
Ers faint fu'r rhai a gymerodd ran yn ddi-waith?					

Addaswyd o Magenta Book (2001) Blwch 2c

O ystyried ehangder y gwaith sy'n cael ei wneud gan brosiectau yn rhan o'r cynllun hwn, ni all y canllaw hwn nodi'n benodol pa gwestiynau gwerthuso fyddai'n briodol ar gyfer eich prosiect. Mae'n angenrheidiol ichi felly ystyried gofynion penodol eich prosiect wrth lunio eich cwestiynau ymchwil. Er nad yw'r canllaw hwn yn nodi yn union pa gwestiynau y dylech chi geisio eu hateb drwy gyfrwng eich gwerthusiad, rydym ni yn gofyn ichi ystyried Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin mwy cyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd sy'n berthnasol i'ch prosiectau a sut y gallai eich cwestiynau gwerthuso gyfrannu at ateb y cwestiynau hynny. Mae rhestr lawn o'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredinol yn Atodiad 2.

Mae Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin yn elfen bwysig o System Fonitro a Gwerthuso Cyffredin yr UE. Maent yn gymorth i ddiffinio pwyslais y gwerthusiadau ac yn fodd o astudio cynnydd, effaith a llwyddiannau

ymyraethau datblygu gwledig ar wahanol raddfeydd gan gynnwys Cymru, Y DU ac aelod wladwriaethau eraill yr UE.

Caiff Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin eu hateb gan ddefnyddio meini prawf a dangosyddion dyfarniad penodol (gweler enghraifft yn Nhabl 1 isod). Caiff y meini prawf dyfarniad eu defnyddio i gysylltu'r dangosyddion i'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin sy'n helpu i gasglu'r dystiolaeth i ddatblygu'r atebion. Man cychwyn yn unig yw'r meini prawf dyfarniad a osodir gan y CE ac fe ddylai'r gwerthuswyr ddatblygu meini prawf dyfarniad ychwanegol sydd wedi eu dylunio i fynd i'r afael â materion sy'n benodol i bob prosiect. Mae cyfanswm o 30 Cwestiwn Gwerthuso sy'n cynnwys un ar gyfer pob un o'r 18 Maes Pwyslais, gyda'r 12 sy'n weddill yn asesu blaenoriaethau llorweddol. Mae rhestr lawn o'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gael yn Atodiad 1.

Ni fydd pob un o'r Cwestiynau hyn yn berthnasol i'ch prosiect chi, a does dim ond angen ystyried y Cwestiynau Gwerthuso hynny sy'n fwyaf perthnasol i'ch prosiect. Fel y nodir yn nodiadau canllaw y Cynlluniau Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi, mae'n rhaid i weithgarwch yn rhan o'r cynllun fynd i'r afael ag o leiaf un Maes Pwyslais. Dylai prosiectau felly geisio casglu dystiolaeth er mwyn ateb y Cwestiwn Gwerthuso sy'n gysylltiedig â'u gweithgaredd. At hyn, hwyrach na fydd hi'n bosib ateb y Cwestiynau Gwerthuso yn uniongyrchol oherwydd maent wedi eu dylunio i fod yn berthnasol i Rhaglenni Datblygu Gwledig yn eu cyfanrwydd. Er hynny, gall y Cwestiwn Gwerthuso a'r meini prawf dyfarniad perthnasol fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu cwestiynau ymchwil ar gyfer gwerthusiadau prosiect, ac fe ddylai prosiectau ystyried sut y gellir eu defnyddio i'w cyd-destun penodol.

I roi enghraifft, mae Tabl 1 yn rhoi gwybodaeth allweddol ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer Maes Pwyslais 6A. Dylai prosiectau edrych ar y rhestr gyflawn o Gwestiynau Gwerthuso yn Atodiad 1 ac ychwanegu Cwestiynau Gwerthuso at y fanyleb werthuso.

*Tabl 1 – Enghraifft o Gwestiwn Gwerthuso Cyffredin – Blaenoriaeth 6A*

	<b>Maes Pwyslais 6A – Meithrin datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig</b>
--	--

<b>Cwestiwn</b> <b>Gwerthuso Cyffredin</b> <b>sy'n berthnasol i'r</b> <b>Maes Pwyslais</b>	I ba raddau mae'r RhDG wedi cefnogi creu swyddi a mentrau bychain i ymsefydlu, datblygu ac arallgyferio.
<b>Meini</b> <b>Dyfarniad</b>	<b>Prawf</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mentrau bychain wedi eu creu</li> <li>• Mentrau bychain wedi amrywio eu gweithgarwch economaidd</li> <li>• Swyddi wedi eu creu</li> </ul>
<b>Dangosyddion</b> <b>Datblygu</b> <b>Cyffredinol</b>	<b>Gwledig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddi wedi eu creu yn y prosiectau a gefnogir (<i>FA 6A – Dangosydd canlyniad</i>)</li> </ul>
<b>Gwybodaeth</b> <b>Ychwanegol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• % o fentrau bychain yn y sector anamaethyddol a grëwyd gyda chefnogaeth y RhDG</li> <li>• % o fentrau bychain newydd a grëwyd gyda chefnogaeth y RhDG</li> </ul>

### Adran 3: Gofynion Data

Ar ôl penderfynu ar amcanion eich gwerthusiad a dewis cwestiynau ymchwil priodol ar ei gyfer mae hi'n bwysig ystyried o ble fydd y data i ateb y cwestiynau hyn yn dod. Yn gyffredinol mae hi'n ddefnyddiol ystyried hyn mewn dwy ffordd: pa ddata sydd eisoes ar gael a allai fod o gymorth i'ch gwerthusiad a pha ddata newydd all fod angen ei gasglu drwy gyfrwng y broses werthuso. Dylid meddwl am yr ystyriaethau hyn cyn gynted â phosib yng nghylch y prosiect.

#### 3.1 Data sydd eisoes ar gael

Un o'r prif ffynonellau gwybodaeth yn y gwerthusiad fydd gwybodaeth sydd eisoes ar gael heb fod angen casglu data craidd. Fe all yr wybodaeth hon fod ar ffurf data gweinyddol sydd eisoes ar gael<sup>5</sup>, arolygon eraill sydd ar y gweill, sy'n fwyaf perthnasol i brosiectau a ariennir yn rhan o'r cynllun Datblygu

<sup>5</sup> Data a gasglwyd yn bennaf er dibenion gweinyddol, yn hytrach nag ymchwil – er enghraifft cofnodion iechyd a diogelwch. Mae modd gweld enghraifftiau cenedlaethol o ddata gweinyddol yma: <https://www.ukdataservice.ac.uk/get-data/key-data/administrative-data>. Mae hi hefyd yn bosib y gall prosiectau gasglu peth gwybodaeth gweinyddol eu hunain, er enghraifft, cofnod o faint o bobl aeth i ddigwyddiadau neu gyrsiau hyfforddi.



Cynlluniau Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi, gan fonitro data a gasglwyd yn rhan o weithgarwch y prosiect. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys data ariannol, data yn ymwneud â dangosyddion perfformiad a manylion cyswllt y cyfranogwyr a'r buddiolwyr a gefnogwyd drwy'r prosiect os yw'n berthnasol. Er na chesglir y data hwn er dibenion gwerthuso mae serch hynny yn fuddiol er mwyn gwerthuso. Er enghraifft, gall data ynglŷn â dangosyddion perfformiad ddangos a yw prosiect yn cyflawni ei dargedau. Fodd bynnag, mae data monitro yn llai abl i helpu deall y rhesymau pam mae, neu pam nad yw prosiect, yn cyflawni ei dargedau.

Mae data monitro effeithiol o bwysigrwydd pellach o ran casglu a chadw manylion cyswllt cyfranogwyr neu fudd-ddeiliaid a ellir eu defnyddio wrth werthuso. Dylech ystyried faint o ddata sydd angen ei gasglu, yn gymesur â'ch prosiect. Er enghraifft, os cynhelir cwrs hyfforddi, dylid cofnodi manylion cyfranogwyr ac fe ddylech chi nodi'n glir, ar ffurf nodyn cyfrinachedd<sup>6</sup>, sut y caiff eu data ei ddefnyddio – yn enwedig y caiff ei rannu gyda gwerthuswyr a fydd o bosib yn dymuno cysylltu â nhw yn rhan o'r gwerthusiad. Dylai prosiectau gadw manylion cyswllt cyfredol gan ddefnyddio cronfeydd data electronig ar gyfer pob gweithgarwch a phawb sy'n elwa o'r ymyraethau. Wrth drin data personol dylai prosiectau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998, a'r rheini fydd yn dod i rym yn rhan o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn 2018.

Mae hi'n hanfodol y cesglir data mewn ffordd systematig a chadarn a safonol. Er enghraifft, ar ôl ichi benderfynu pa ddata y mae angen i chi ei gasglu, fe ddylech chi sicrhau y cesglir y data hwn gan yr holl gyfranogwyr yn yr un modd bob tro. Dylech osgoi sefyllfaoedd pan fydd gennych chi fylchau yn eich cofnodion ar gyfer rhai cyfranogwyr neu wedi casglu gwahanol fath o ddata gan gyfranogwyr gwahanol (oni bai bod rheswm da dros wneud hynny). Dylech ystyried hefyd sut y cedwir y data. Bydd angen iddo fod yn ddiogel, ond hefyd mewn diwyg hygyrch a hwylus i'r sawl fydd yn ei ddefnyddio. Argymhellir sefydlu systemau electronig i gadw'r data. **Heb ddata dibynadwy**

---

<sup>6</sup> <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/privacy-notices-transparency-and-control/>

**nid yw hi'n bosib deall effeithiau'r ymyrraethau'n fanwl na chwaith a ydynt yn cyrraedd eu targedau.**

Mae hi'n bwysig iawn ystyried gweithgareddau monitro a gwerthuso a chytuno ar gyfrifoldebau a phrosesau ar gyfer casglu data cyn gynted â phosibl wrth weithredu'r prosiect. Os oes diffyg data ar gael, hwyrach y bydd angen i'r gwerthusydd ddefnyddio ffurfiau eraill i gasglu'r data hwn a fydd yn ychwanegu at gost ac amser y gwerthusiad.

### **3.2 Data Sylfaenol**

Ble bynnag y bo hi'n bosib, anogir prosiectau i feddwl am ba ddata sylfaenol sydd ar gael ar gyfer eu prosiect. Mae argaeledd data sylfaenol yn bwysig oherwydd bod angen i werthuswyr gymharu canfyddiadau yn ystod cyfnod a/neu ar ddiwedd prosiect gyda'r sefyllfa oedd yn bodoli cyn dechrau ymyrryd. Heb ddata sylfaenol mae hi'n anoddach dangos gwerth ymyrraeth. Gall data sylfaenol fod o gymorth hefyd inni ddeall yr amgylchiadau economaidd-gymdeithasol mewn maes ymyrraeth cyn i weithgarwch ddechrau neu drwy gasglu nodweddion allweddol gan gyfranogwyr/mentrau wrth iddynt ddechrau cymryd rhan. Dylai data sylfaenol ganolbwyntio ar feysydd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgareddau y mae prosiectau unigol yn eu cynnal. Mae hi'n bwysig y caiff y data sylfaenol ei gasglu cyn dechrau ymyrraeth.

Gellir casglu data sylfaenol o ffynonellau gwahanol yn dibynnu ar y gofynion. Er enghraifft, wrth gasglu data yn ymwneud ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn y maes ymyrraeth mae hi'n debygol y bydd ffynonellau data sydd eisoes ar gael yn ddigonol. Fe all hyn gynnwys data o Raglen Datblygu Gwledig 2007 - 2013, adroddiadau gwerthuso cyfredol, a setiau data cyfredol megis y rheini sydd ar gael ar wefan Stats Cymru<sup>7</sup>. O ran prosiectau sy'n cefnogi pobl neu fusnesau yn uniongyrchol, gall monitro data a gasglwyd pan ddechreuodd y bobl neu'r busnesau hynny ar y prosiect fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar gyfer data sylfaenol unigol. Mae modd cofnodi data megis trosiant a nifer swyddi cyfystyr â rhai llawn amser ar ddechrau ac ar ddiwedd ymyrraeth fel modd o gymharu newid. Drwy gyfeirio at y data hwn

---

<sup>7</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

mewn gwerthusiad terfynol, gall gwerthuswyr fesur union newidiadau yn hytrach na gofyn i fuddiolwyr amcangyfrif faint o newid a fu.

### **3.3 Casglu Data Newydd**

Ar ôl penderfynu ar amcan a chwestiynau eich ymchwil ac ar argaeledd ffynonellau data sydd eisoes ar gael mae angen ystyried a oes gormod o fylchau yn y data a pha dulliau ymchwil y gellid eu defnyddio i helpu gwerthuso'r prosiect. Wrth ddatblygu'r fanyleb ar gyfer contract gwerthuso mae hi'n hanfodol amlinellu'r dulliau y byddech yn disgwyl i werthusydd eu defnyddio. Os nad yw hyn yn glir, mae'n bosib na fydd y cynigion a gewch chi yn cynnwys y fethodoleg gywir ar gyfer gofynion eich ymchwil. Fodd bynnag, hwyrach yr hoffech chi ystyried gofyn i gynigwyr awgrymu dulliau eraill os ydynt yn credu y gallai'r rhain fod yn fwy effeithiol i fodloni nodau ac amcanion y gwerthusiad. Gall hyn beri risg, oherwydd efallai na chewch chi'r dulliau yr ydych chi'n credu sydd orau, ond mae yn gyfle i gynigwyr fod yn greadigol ac awgrymu dulliau nad oeddech chi wedi eu hystyried. Os ydych chi'n mynd ati yn y modd hwn mae hi'n bwysicach nag erioed i fod yn glir iawn ynghylch yr hyn yr hoffech chi ei ganfod o'r gwerthusiad fel nad yw cynigwyr yn awgrymu dulliau anaddas. Mae hi hefyd yn hanfodol egluro pam rydych chi wedi dewis y dulliau penodol rydych chi wedi eu hamlinellu yn y fanyleb, yn enwedig os ydych chi wedi penderfynu peidio â defnyddio dulliau eraill am resymau amrywiol.

Yn fras, mae hi'n fuddiol ystyried ymchwil mewn dau gategori, fel naill ai ymchwil meintiol neu ansoddol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig oherwydd mae ganddo oblygiadau i'r math o ddata y gellir ei gasglu, beth mae modd ei wneud gyda'r data a'r cwestiynau ymchwil y mae modd eu hateb.

Mae a wnelo ymchwil meintiol ar y cyfan â chasglu data y gellir ei fesur a'i feintioli ar ffurf rhifau. Wrth werthuso, caiff data meintiol newydd ei gasglu fel arfer drwy roi holiaduron i'r bobl hynny sydd wedi gweld effaith prosiect (gweler y tabl isod). Mae ymchwil meintiol yn fwyaf perthnasol pan mae

arnoch chi eisiau gwybod faint mae ymyrraeth wedi ei chyflawni neu werth y newidiadau a gyflawnwyd. Mae ymchwil meintiol yn llai buddiol i ateb cwestiynau ynglŷn â sut neu pam y bu newid.

Mae ymchwil ansoddol yn rhoi llai o bwyslais ar ddata rhifol a meintioli a mwy o bwyslais ar ddeall gweithredoedd ac agweddau drwy ddadansoddi geiriau, testun a'r gair llafar. Tra bo ymchwil meintiol yn rhoi mwy o sylw i gwestiynau megis *beth* neu *faint*, mae ymchwil ansoddol yn fwy cydnaws â chwestiynau fel *pam* neu *sut* mae pethau penodol wedi digwydd ac mae a wnelo mwy â rhoi cyfrif manwl a thoreithiog o'r pwnc dan sylw. O ganlyniad i hyn mae ymchwil ansoddol ar y cyfan yn cynnwys llai o bobl/achosion oherwydd mae a wnelo mwy â chasglu data manwl a thrylwyr. O ganlyniad mae ymchwil ansoddol yn llai addas i roi canfyddiadau cyffredinol.

### **3.3.1 Dulliau ymchwil**

Mae hi'n bwysig ystyried eich gofynion ymchwil a'r data sydd ei angen i ateb y cwestiynau hynny. Mae'n debygol y byddwch yn cynnwys cwestiynau *pam* a *sut yn ogystal* â chwestiynau *beth* a *faint*, felly fe all hi fod yn briodol mynd ati gan ddefnyddio'r ddau ddull, y meintiol a'r ansoddol. Mae'r Adran ganlynol yn rhoi trosolwg o rai o'r dulliau ymchwil mwyaf cyffredin a'u manteision a'u hanfanteision perthynol ar gyfer ymchwil. Nid yw'r rhestr hon yn un cyflawn na chwaith yn ddatganiad o bopeth y dylai eich manyleb ei chynnwys. Yn hytrach, dylech ystyried eich gofynion a phenderfynu ar y dulliau mwyaf priodol i'w cyflawni. Mae dolenni ychwanegol ar ffynonellau manwl ynglŷn â methodoleg ar gael yn Atodiad 1.

Tabl 2 – Dulliau ymchwil cyffredin

Dull ymchwil	Disgrifiad	Gofynion/Ystyriaethau	Manteision	Anfanteision
Arolwg	Mae arolwg yn cynnwys set safonol o gwestiynau a ofynnir i nifer fawr o bobl er mwyn creu ystadegau crynswth. Gellir eu cynnal mewn sawl ffordd, naill ai dros y ffôn, drwy'r post, ar lein neu drwy gyfrwng cyfweiliadau wyneb yn wyneb.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os rhoddir yr arolwg i'r un bobl gellir ei ddefnyddio i olrhain newidiadau dros gyfnod o amser</li> <li>• Mae angen manylion cyswllt cyfranogwyr neu restr ddosbarth sydd ar gael yn rhwydd</li> <li>• Os ydych chi eisiau canfyddiadau cyffredinol mae angen gofal wrth samplu eich cyfranogwyr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Modd casglu nifer fawr o ddata</li> <li>• Modd ei ddyblygu'n hawdd drwy gynnal arolygon drachefn.</li> <li>• Gall fod yn hawdd a rhad i'w weithredu o'i gymharu â dulliau eraill.</li> <li>• Mae'n fodd o gael darlun cyffredinol ynglŷn ag effaith prosiect</li> <li>• Mae modd ei ddefnyddio i gasglu data gan bobl sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect / elwa arno er mwyn asesu barn ynglŷn ag effaith yr ymyrraeth neu gan y rhai nad oedd yn rhan o'r prosiect i asesu cwmpas ehangach yr ymyrraethau neu i fod yn grŵp rheoli.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfyngiad o ran faint o ddata mae modd ei gasglu drwy gyfrwng arolwg</li> <li>• Mae'n bosib y bydd angen profi cwestiynau arolwg cymhleth i sicrhau y cawn nhw eu deall yn yr un modd</li> <li>• Nid yw'n addas os yw'r maes dan sylw yn rhy gymhleth neu sensitif.</li> </ul>
Cyfweiliadau ansoddol	Mae arolygon ansoddol yn caniatáu hyblygrwydd o ran natur cwestiynau ac yn rhoi pwyslais ar safbwynt y sawl sy'n cael ei gyfweild ac ar gasglu data toreithiog. Caiff cyfweiliadau ansoddol eu cynnal fel arfer wyneb yn wyneb	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen gallu cysylltu â chyfranogwyr i'w cyfweild</li> <li>• Bydd angen trawsgrifio'r cyfweiliadau yn ôl pob tebyg er mwyn eu dadansoddi</li> <li>• Mae samplu yn bwysig wrth ddewis ymatebwyr oherwydd bydd yn effeithio ar y data a gesglir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn fodd o gasglu data toreithiog sy'n cynnig cipolwg gwell ar ymddygiad ac agweddau pobl.</li> <li>• Yn codi cwr y llen ar yr hyn mae'r sawl sy'n ymateb yn credu sy'n bwysig</li> <li>• Yn cynnig mwy o hyblygrwydd wrth holi cwestiynau a chwmpas ehangach i gael mwy o fanylion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r broses gasglu data yn cymryd mwy o amser</li> <li>• Gallu casglu data gan lai o bobl sy'n cyfyngu ar eich gallu i ddod i gasgliad cyffredinol o'r canfyddiadau</li> <li>• Yn llai addas ar gyfer mesur newidiadau yn fanwl.</li> </ul>

	neu dros y ffôn			
Grwpiau Pwyslais	Nid yn annhebyg i gyfweiliadau, mae grwpiau pwyslais yn cynnwys cydlynnydd sy'n annog trafodaethau mewn cyfarfod o rhwng chwech ac wyth person.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen cael pobl i gymryd rhan yn y grwpiau pwyslais</li> <li>• Bydd angen trawsgrifio'r cyfweiliadau o bosib er mwyn eu dadansoddi</li> <li>• Mae samplu yn bwysig wrth ddewis ymatebwyr oherwydd bydd yn effeithio ar y data a gesglir.</li> <li>• Nid yw'n addas o bosib i drafod materion mwy sensitif.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fel gyda chyfweiliadau, mae grwpiau pwyslais yn caniatáu casglu data toreithiog sy'n helpu i ddeall ymddygiad ac agweddau pobl</li> <li>• Mae'r dull hwn yn ddefnyddiol i gasglu gwahanol farn a safbwyntiau mewn amser byrrach na chyfweiliadau</li> <li>• Yn fodd o archwilio sut mae grŵp yn cydweithio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae trawsgrifio trafodaethau grwpiau pwyslais yn cymryd amser maith</li> <li>• Data wedi ei gasglu gan nifer cyfyngedig o bobl yn golygu na ellir dod i gasgliadau cyffredinol mwy eang</li> <li>• Angen rheoli sut mae'r grŵp yn gweithio fel nad yw un person yn tra-arglwyddiaethu yn y trafodaethau.</li> </ul>
Astudiaethau Achos	Mae astudiaethau achos yn cynnwys astudiaeth fanwl a thrylwyr o 'achos' unigol. Gall achos fod yn sawl peth, megis person, busnes neu gymuned. Mae hi'n bwysig nodi beth yw'r achos.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn bwysig gwahaniaethu rhwng y rhain ac astudiaethau achos er diben ymarferion cyhoeddus. Mae astudiaethau achos ymchwil yn cymryd llawer iawn o amser ac mae angen ymchwil sylweddol yn y maes dan sylw.</li> <li>• Mae hi'n bwysig bod yn glir ynglŷn â pham y dewisiwyd achos arbennig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn fodd o astudio ymyrraeth benodol neu agwedd ar brosiect yn fanwl sy'n gallu ymchwilio sut a pham y mae wedi gweithio neu beidio.</li> <li>• Yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer prosiectau neu ymyraethau cymhleth.</li> <li>• Gall ddarparu ystod eang o ddata i helpu deall sut neu pam mae rhywbeth wedi gweithio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn golygu cryn amser ac adnoddau.</li> <li>• Cyfyngedig yn ei allu i gyffredinoli canfyddiadau y tu hwnt i'r achos dan sylw.</li> </ul>

### **3.3.2 Cysylltu â'ch cyfranogwyr**

Wrth roi'r dulliau ymchwil ar waith bydd angen i werthuswyr allu cysylltu'r sawl sydd wedi elwa o'r ymyrraeth. Er mwyn galluogi hyn, dylai manylion cyswllt cyfredol y bobl hynny fod ar gael i reolwyr prosiect fel y gallan nhw eu trosglwyddo i'r gwerthuswyr. Bydd angen i brosiectau fod yn ymwybodol o ofynion diogelu data ac anfon rhybuddion cyfrinachedd at yr holl gyfranogwr/buddiolwyr pan fyddant yn dechrau cymryd rhan sy'n egluro pam mae angen eu data, beth a gaiff ei ddefnyddio ar ei gyfer a phwy fydd yn ei weld, gan gynnwys y gwerthuswyr. Gallai peidio â gwneud hyn danseilio'r broses werthuso a'i gwneud hi'n anoddach cysylltu â chyfranogwyr. Wrth gysylltu â chyfranogwyr yn rhan o'r gwerthuso bydd angen i'r gwerthuswyr amlinellu pam y gwneir yr ymchwil, beth fydd yn digwydd i'r data a gofyn am ganiatâd y person cyn iddo gymryd rhan yn yr ymchwil. Rhaid i'r bobl sy'n cymryd rhan fod yn gwneud hynny o'u gwirfodd ac fe ddylid rhoi'r dewis iddyn nhw gefnu ar yr astudiaeth ar unrhyw adeg.

## **Adran 4: Comisiynu a rheoli'r gwerthusiad**

Mae Adran 4 yn archwilio rhai o'r ystyriaethau allweddol wrth reoli eich contract ymchwil. Mae 4.1 yn ymdrin â rhai o'r ystyriaethau allweddol cyn comisiynu eich gwerthusiad. Mae Adran 4.2 yn rhoi amlinelliad o dempled manyleb. Mae Adran 4.3 yn rhoi templed drafft ar gyfer adroddiad gwerthuso ac mae Adran 4.4 yn ymwneud â chomisiynu eich gwerthusiad. Mae 4.5 yn edrych ar reoli'r contract ar ôl ei gomisiynu. Mae 4.6 yn rhoi sylw i faterion ynglŷn â rheoli ansawdd wrth dderbyn yr adroddiad ac mae a wnelo Adran 4.7 â defnyddio'r canfyddiadau a rhannu canlyniadau'r gwerthusiad.

### **4.1 Cyn Comisiynu eich Gwerthusiad**

#### 4.1.1 Amserlenni

Mae hi'n bwysig rhoi digon o amser i'r broses werthuso, gan gynnwys datblygu manyleb a chaniatáu amser i adolygu hyn. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried yr amser a dreulwyd yn rhan o'r broses gaffael ac asesu. Wrth ystyried hyd yr ymchwil a chyflwyno'r adroddiad terfynol fe ddylech chi neilltuo amser i ganiatáu sylwadau ynglŷn â'r adroddiad ac unrhyw newidiadau y mae disgwyl o bosib i'r contractwyr eu gwneud. Fe ddylech chi ddatblygu tabl gwerthuso sy'n nodi'r ystyriaethau hyn mewn modd eglur fel y caniateir digon o amser ar gyfer pob un o'r tri cham hwn. Wrth ddatblygu'r amserlen hon fe ddylech chi weithio'n ôl o'r amser yr hoffech chi dderbyn yr adroddiadau drwy bob cam o'r broses.

#### 4.1.2 Adnoddau

Dylid darparu adnoddau priodol a digonol ar gyfer monitro a gwerthuso. Dylai cyllidebau ar gyfer comisiynu gwerthusiadau allanol fod yn gymesur â nodau ac amcanion y gweithgarwch. Mae gwerthusiadau diffygiol mewn adnoddau yn debygol o arwain at dystiolaeth o ansawdd wael neu hyd yn oed at gasgliadau anghywir a hwyrach na fyddant yn rhoi'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer cynllunio prosiectau yn y dyfodol.



#### 4.1.3 Grŵp Llywio'r Gwerthusiad

Cyn comisiynu gwerthusiad, argymhellir creu grŵp llywio yn rhan o'r prosiect er mwyn goruchwyllo'r contract. Dylai'r grŵp hwn gynnwys: rhanddeiliaid sydd â diddordeb yng nghanlyniadau terfynol yr adroddiad, unigolion yn y sefydliad sydd â gwybodaeth am y prosiect (gan gynnwys data monitro) a chynrychiolwyr o blith y rhai fu'n cynnal y prosiect. Cysylltwch â'r gangen strategaeth i ofyn i aelod o'r tîm fod yn rhan o'ch Grŵp Llywio'r Gwerthusiad.

Bydd trefniadau llywodraethu yn egluro pwy sy'n gyfrifol am ba orchwyl, a allai gynnwys rheolwr y prosiect, uwch-berchennog cyfrifol, cyfarwyddwr prosiect neu grŵp llywio.

*Tabl 2 – Cyfrifoldebau o ran rheoli ansawdd y gwerthusiad*

<b>Rheolwr Mewnol y Prosiect</b>	<b>Uwch-berchennog cyfrifol/Cyfarwyddwr Prosiect</b>	<b>Grŵp Llywio</b>
Drafftio'r fanyleb	Sicrhau fod adnoddau priodol ar gael	Sicrhau ansawdd a pherthnasedd
Cael y data a'r gwiriadau diogelwch angenrheidiol	Sicrhau y cesglir yr wybodaeth angenrheidiol a'i fod ar gael i werthuswyr	Hwyluso gwaith gwerthuswyr allanol
Rheoli risgiau o ddydd i ddydd		Gwybodaeth a manylion cyswllt ar gael
Sicrhau bod y prosiect ar y trywydd cywir, yn bodloni amcanion, ei fod ar amser ac o fewn y gyllideb.		Sicrwydd ansawdd: dyluniad, cwestiynau, dulliau, offer ymchwilio
Contractwyr: rhoi cyngor ac ymateb yn amserol i faterion sy'n codi		Helpu i ddehongli a dadansoddi
Sicrwydd ansawdd		
Hysbysu'r bobl berthnasol o'r canfyddiadau		

*Ffynhonnell: Magenta Book (Tabl 5c)*

Dylai'r trefniadau llywodraethu hefyd fanylu ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am reoli'r data, yn unol â Deddf Diogelu Data (1998) ac, o 2018, yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

## 4.2 Manyleb

Mae'r fanyleb yn gam hanfodol yn y broses werthuso. Caiff ei defnyddio yn ddogfen gyfeiriol dros gwrs y gwerthusiad i fesur cynnydd ac i sicrhau bod y gwerthuswr llwyddiannus yn gwneud y gwaith sydd ei angen. Fel y trafodwyd yn Adran 2 a 3, mae hi'n bwysig yr amlinellir y nodau, yr amcanion a'r fethodoleg angenrheidiol yn glir ac yn gynhwysfawr. Os yw cwmpas gwerthusiad wedi ei ddiffinio'n annigonol, bydd y canlyniad terfynol o ansawdd wael hefyd.

Wrth ddylunio manylebau ar gyfer contractau, hwyrach y bydd gan eich sefydliad dempledi safonol y gallwch chi eu defnyddio. Mae modd defnyddio Tabl 3 isod yn ganllaw o ran yr adrannau mae'n ddefnyddiol ystyried eu cynnwys mewn manylebau drafft.

*Tabl 3 – templed manyleb*

Adran Fanyleb	Nodyn canllaw
Canllaw	<p>Eglurwch gefndir y gwerthusiad, o ran y maes polisi (e.e. y cefndir i'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi, y cefndir i Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a hefyd egluro beth mae'r prosiect yn gobeithio ei gyflawni) a'r cyd-destun ehangach y cynhelir y gwerthusiad ynddo (e.e. pam y comisiynir y gwerthusiad ar yr adeg hon, sut gaiff y canlyniadau eu defnyddio).</p> <p>Dylai'r Adran hon ateb y cwestiynau ynglŷn â pham yr ydych chi'n comisiynu'r prosiect ymchwil.</p>
Nodau ac Amcanion	

	<p>Dylai'r amcanion cyffredinol a roddir yn yr adran hon ateb, yn gyffredinol, y cwestiwn ynglŷn â beth yr hoffech chi ei gyflawni yn sgil y gwerthusiad.</p> <p>Dylai'r Adran gynnwys y prif feysydd yr hoffech chi i'r gwerthuswyr eu harchwilio oherwydd hwn sy'n darparu sylfaen cytundebol y gwaith.</p>
Methodoleg	<p>Disgrifiwch yn glir y dulliau yr hoffech chi i'r contractwr eu defnyddio. Eglurwch unrhyw her rydych chi'n ei rhagweld (e.e. amserlen cwblhau, dulliau).</p> <p>Dylai fod gan y rhai sy'n bwriadu cyflwyno cais ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r sawl sy'n comisiynu'r gwaith yn ceisio ei gyflawni, ond teimlo'n rhydd i awgrymu'r ffordd orau o gyflawni hynny.</p> <p>Os oes arnoch chi eisiau i ddull penodol gael ei ddefnyddio sicrhewch eich bod yn cynnwys hynny yma.</p>
Dyddiad cau'r tendr a meini prawf dyfarnu'r contract.	<p>Dylai'r adran ynglŷn â'r amserlen osod cerrig milltir o ran tendro ar gyfer y prosiect, o hysbysebu'r fanyleb hyd at ddyfarnu'r prosiect.</p> <p>Dylai'r adran hon nodi'n glir y meini prawf dyfarnu a ddefnyddir i sgorio'r cynigion, gan gynnwys y pwyslais ar gyfer pob adran. Dylid cynnwys cost y contract yn rhan o gyfanswm dyfarniad y sgôr. Gall y canlynol fod yn enghreifftiau o feini prawf sgorio:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Deall cyd-destun yr ymchwil ac ymateb i'r briff (uchafswm o 1,500 gair - 20%)</li> <li>2. Y fethodoleg, gan gynnwys y rhesymeg, addasrwydd y dulliau a awgrymir, amserlen y gwaith, y risgiau a ragwelir a ffyrdd o'u lliniaru</li> </ol>

	<p>(uchafswm o 3,000 gair – 40%)</p> <p>3. Manylion y tîm prosiect; profiad blaenorol perthnasol, swyddogaethau a chyfrifoldebau yn rhan o'r contract hwn (uchafswm o 1,500 gair – 20%)</p> <p>4. Cost (20%)</p> <p>Rydym yn argymhell gosod uchafswm geiriau ar gyfer pob adran.</p>
Amserlen a hyd y contract	<p>Amlinellu dyddiad dechrau a gorffen y contract a chynnwys tabl yn amlinellu'r pethau allweddol y mae angen eu cyflawni a'r terfyn amser.</p> <p>Fe allai'r canlynol fod yn gamau datblygu allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad cychwynol</li> <li>• Gwaith maes</li> <li>• Adroddiad terfynol drafft</li> <li>• Cyflwyno i'r cleient</li> <li>• Adroddiad terfynol</li> </ul> <p>Dylai amserlenni ganiatáu digon o amser i lunio adroddiadau, o'u ffurf ddrafft i'r adeg lle rhoddir sêl bendith iddynt, fel y gall y rhai sy'n tendro roi ystyriaeth i'r amser hwn wrth gynllunio.</p>
Cyllideb ac amserlen brisiau	<p>Dylai'r adran hon fanylu ar y gyllideb ar gyfer y gwaith. Argymhellwn eich bod yn gosod ystod gost, sy'n rhoi brasamcan o gost y gwerthusiad er mwyn annog cystadleuaeth ond sydd ar yr un pryd yn rhoi syniad i'r sawl sy'n ymgeisio am y tendr o gost ddisgwyliedig y contract.</p> <p>Dylech gynnwys amserlen brisiau sy'n amlinellu'r</p>

	cerrig milltir pan gaiff anfonebau eu talu. Fe allai'r rhain gysylltu â'r prif gamau cyflawni a nodwyd uchod.
Y Gymraeg a gofynion cyfieithu	Dylai'r Contractwr sylwi ar yr angen i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud y gwaith maes yn ddwyieithog megis cyfweiliadau ac arolygon cymunedol. Dylai adroddiadau fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Monitro'r contract	Trefniadau cyswllt ar gyfer y cleient a'r contractwr a threfniadau diffyg cydymffurfio.
Diogelwch data	Mae'n rhaid i gontractau gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data.  Mae'n rhaid cael trefniadau priodol ar waith i sicrhau y caiff data ei drosglwyddo'n ddiogel rhwng y gwerthuswyr a'r cleient/buddiolwr. Mae angen i'r Contractwyr allu storio'r data yn ddiogel hefyd.

Anfonwch unrhyw fanyleb yr hoffech chi sylwadau arni i [RDPM&E@wales.gsi.gov.uk](mailto:RDPM&E@wales.gsi.gov.uk). At hyn, mae templed Canllaw Arddull a thempledi adroddiad Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth ar gael hefyd.

### 4.3 Comisiynu'r Contract

Ar ôl ichi orffen eich manyleb gwerthuso mae angen comisiynu'r gwerthusiad. Wrth gomisiynu'ch gwerthusiad dylai prosiectau gadw at brotocol y cwmni

neu'r Awdurdod Lleol ond argymhellir rhoi'r gwerthusiadau ar wefan gwerthwchigymru<sup>8</sup> ar ffurf tendr agored.

Ar ôl derbyn cynigion bydd angen ichi sgorio'r cynigion gwerthuso a ddaeth i law yn unol â'ch methodoleg asesu a amlinellir yn y fanyleb werthuso. Wrth sgorio'r cynigion a ddaeth i law fe ddylech ddilyn eich gweithdrefnau mewnol eich hun i sicrhau y dilynir y prosesau cywir.

Dylai'r gwerthuswyr llwyddiannus fod yn annibynnol ar y prosiect ac ni ddylent gynnwys unrhyw un o randdeiliad y prosiect. Mae aelodau o'r Tîm Strategaeth ar gael i roi sylwadau ac i sgorio'r tendrau gwerthuso.

#### **4.4 Rheoli'r contract**

Ar ôl comisiynu a dyfarnnu'r gwerthusiad bydd cyfarfod cychwynnol yn rhan bwysig o'r contract. Dyma ble mae modd cytuno ar drefniadau terfynol ac amcanion craidd yr ymchwil. Dylech lunio adroddiad neu grynoded o'r cyfarfod hwn y bydd angen i bawb gytuno arno fel bod dealltwriaeth glir ynglŷn â'r cynlluniau. Wrth i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo, mae hi'n bwysig bod y rheolwyr prosiect yn cadw mewn cyswllt rheolaidd â'r gwerthuswyr er mwyn sicrhau bod y contract yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Fe allai hyn fod ar ffurf galwadau ffôn rheolaidd, diweddariadau e-bost neu gyfarfodydd adrodd yn ôl wedi eu trefnu ymlaen llaw. Mae rheoli'r contract mewn modd rhagweithiol yn broses bwysig oherwydd fe all cyswllt rheolaidd fod o gymorth wrth atal problemau rhag datblygu, gall olygu bod modd cysylltu'n gynt ag ymatebwyr a sicrhau nad yw'r amserlen werthuso yn dechrau llusgo, oni bai bod y ddwy ochr yn cytuno ar hynny.

#### **4.5 Templed adroddiad**

Er mwyn ceisio safoni a chreu nodweddion cyffredin ymysg gwerthusiadau'r RhDG, mae'r templed isod yn rhoi awgrym o'r adrannau y gellid eu cynnwys. Bydd y templed hwn yn amrywio yn dibynnu ar faint y prosiectau sy'n cael eu gwerthuso a chwmpas y gwerthusiad. Mae modd cysylltu â'r Gangen

---

<sup>8</sup> Am gyngor ynglŷn â caffael gwasanaethau yng Nghymru cysylltwch â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol; <http://nps.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

Strategaeth yn ystod y broses er mwyn holi am gyngor a chael sylwadau ynglŷn â'r tendrau gwerthuso a'r strwythur arfaethedig. Isod ceir enghraifft fras o strwythur adroddiad gwerthuso:

#### Crynodeb Gweithredol

- Prif ganfyddiadau'r gwerthusiad
- Casgliadau ac argymhellion

#### Cyflwyniad

- Diben yr adroddiad
- Strwythur yr adroddiad

#### Cyd-destun

- Gwybodaeth gryno ynglŷn â chyd-destun y prosiect
- Trafod gwerthusiadau blaenorol ynglŷn â'r cynllun
- Disgrifiad o'r prosiect/rhaglen sy'n cael ei werthuso
- Gweithredu'r rhaglen; pwy fydd yn cymryd rhan, y cyd-destun sefydliadol

#### Y dull methodolegol

- Egluro dyluniad y gwerthusiad a'r dulliau a ddefnyddiwyd
- Ffynonellau data
- Problemau neu gyfyngiadau'r dull methodolegol.

#### Gwybodaeth ariannol ac ynglŷn â'r dangosyddion

- Nifer y bobl a gymerodd ran a'r arian a wariwyd mewn gwirionedd, gyda thablau manwl yn rhestru faint o arian a roddwyd i brosiectau penodol;
- Tablau o'r holl ddata monitro dangosyddion a gasglwyd yn ystod y prosiect. Gallai'r data hwn fod yn sail i werthusiad pellach er mwyn egluro'r canlyniadau.

#### Canlyniadau ymchwil sylfaenol

- Dadansoddiad a chanlyniadau'r ymchwil a wnaed;
- Dylid rhoi pwyslais ar ddadansoddi'r data yn hytrach nag ar gyflwyno'r canlyniadau
- Trafod Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin perthnasol ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig 2014-2020 fel bod modd archwilio a chymharu'r canlyniadau ar sail Cymru gyfan.

#### Casgliadau ac Argymhellion

- Cyflwyno canlyniadau cyffredinol y rhaglen sy'n rhoi ystyriaeth i amcanion sy'n berthnasol i'r prosiect yn benodol a rhai cenedlaethol strategol
- Argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, gan gynnwys, os yn berthnasol, cynigion er mwyn addasu rhaglenni.

Mae templed llawn a chanllaw arddull ar gael gan y Gangen Strategol. At hyn, argymhellir rhoi copïau o'r adroddiadau drafft i'r Gangen Strategaeth fel y gallant wneud sylwadau yn ei gylch cyn rhoi sêl bendith terfynol ar yr adroddiadau gwerthuso.

#### **4.6 Derbyn yr adroddiad a Sicrwydd Ansawdd**

Pan rydych chi'n cael yr adroddiadau drafft gan y gwerthuswyr, bydd angen gwirio'r adroddiad cyn talu. Er bod mân wallau teipio a ffeithiau anghywir efallai yn bethau y gallwch chi eu newid eich hun, os oes problemau cyson yng nghynnwys yr adroddiad o ran gwallau teipio neu ffeithiau anghywir, dylid anfon yr adroddiad yn ôl i'r contractwyr ei gywiro cyn gynted â phosib. Dylai'r adroddiad gydymffurfio ag unrhyw ofynion adrodd a gytunwyd yn y cyfarfod cychwynol a'r adroddiadau enghreifftiol a ddarparwyd. Dylid dadansoddi canlyniadau'r arolwg a'u cyflwyno'n glir yn yr adroddiadau terfynol. Dylai gwerthusiadau fod yn fwy na dim ond cyflwyniad a disgrifiad o lwyddiannau'r prosiect, yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar egluro'r rhesymau dros yr effeithio a chloriannu'r rhesymau dros unrhyw agweddau llai llwyddiannus o'r prosiect. Dylai adroddiadau gwerthuso wneud cyfres o argymhellion hefyd ar gyfer y dyfodol. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad.

#### **4.7 Defnyddio canlyniadau'n effeithiol**

Ni ddylid ystyried gwerthusiad yn ymarferiad 'ticio blwch'. Dylid sôn am argymhellion y gwerthusiad wrth y bobl hynny oedd yn rhan o'r prosiect. Dylai'r grŵp llywio ystyried pob argymhelliad ar ôl y gwerthusiad, a'u hadolygu yn y dyfodol o ran yr hyn sydd o bosib angen ei wneud o ganlyniad i'r argymhellion. Os yw hi'n bosib dylai argymhellion a chanfyddiadau gwerthusiad esgor ar addasu sut y caiff prosiect ei weithredu. Os nad yw hyn yn bosib oherwydd yr adeg y ceir y gwerthusiad, er enghraifft, gwerthusiad terfynol pan fo'r prosiect wedi dod i ben, dylai'r canfyddiadau fod yn bwysig yn yr un modd i ddylunio prosiectau yn y dyfodol. Ynghyd â defnyddio gwybodaeth yn effeithiol mewn adroddiadau, argymhellir yn gryf eich bod yn bwrw golwg dros werthusiadau eraill a wnaed yn rhan o brosiectau tebyg er mwyn adnabod arferion gorau



mewn mannau eraill a gweld pa wersi a ddysgwyd wrth ddarparu gweithgareddau yn rhan o raglen flaenorol.

Mae argymhellion y gwerthusiad yn elfen allweddol o'r adroddiad. Os mai'r bwriad yw cyhoeddi adroddiadau gwerthuso ar y we, hwyrach yr hoffai prosiectau gyhoeddi eu hymatebion i argymhellion yr adroddiad ochr yn ochr â'r adroddiad.

Y brif gynulleidfa ar gyfer y gwerthusiadau a gynhrychir yw'r bobl hynny sydd ynghlwm â'r prosiect ac y mae'r canfyddiadau'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, dylid anfon copi bob un o'r gwerthusiadau at y bwrdd prosiect, rhanddeiliaid y sefydliad, prosiectau eraill tebyg a Llywodraeth Cymru. Dylid cyhoeddi adroddiadau gwerthuso terfynol ar-lein. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n rhoi tryloywder o ran sut y gwariwyd arian cyhoeddus (ar y prosiect a'r gwerthusiad) ac mae hefyd yn caniatáu i bobl eraill ddysgu o ganfyddiadau'r gwerthusiad.

Cyn rhoi sêl bendith terfynol ar adroddiad mae hi'n aml yn ddefnyddiol trefnu i'r contractwr gyflwyno'r canfyddiadau allweddol i staff sy'n gweithio ar y prosiect. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol i'r rhai a gymerodd ran drafod canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad gyda'r gwerthuswyr, i holi cwestiynau ac i ystyried beth y mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn eu golygu iddyn nhw ac i weithgarwch y dyfodol.

Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau'n effeithiol yn ehangach i bobl sydd â diddordeb, hwyrach yr hoffech chi ddefnyddio dulliau megis bwletinâu ar-lein, seminarau lleol, cynadleddau a phapurau wedi eu cyhoeddi. At hyn, mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cynnal digwyddiadau. Mae modd cysylltu â'r uned drwy ebostio [ruralnetwork@wales.gsi.gov.uk](mailto:ruralnetwork@wales.gsi.gov.uk).

I sicrhau y gweithredir y cyfleoedd dysgu y mae'r gwerthusiadau yn cyfeirio atynt, efallai y bydd hi'n briodol cynnal adolygiad ychydig ar ôl cwblhau'r gwerthusiad er mwyn ystyried y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag unrhyw argymhellion a wnaed mewn gwerthusiad.

## Atodiad 1 – Canllawiau Pellach

Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig 2014-2020: [https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/wp\\_evaluation\\_questions\\_2015.pdf](https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/wp_evaluation_questions_2015.pdf)

Gwerthuso Cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi:  
<http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/project-evaluations/supplychain-efficiency/?skip=1&lang=cy>

Gwerthuso'r Cynllun Grant Prosesu a Marchnata:  
<http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/project-evaluations/pmg-scheme-evaluation/?skip=1&lang=cy>

Y Ddesg Cymorth Gwerthuso Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig:  
<https://enrd.ec.europa.eu/en/evaluation>

Canolfan Gwerthuso Effaith y Comisiwn Ewropeaidd:  
[http://ec.europa.eu/regional\\_policy/index.cfm/en/policy/evaluations/guidance/impact\\_faq\\_theor](http://ec.europa.eu/regional_policy/index.cfm/en/policy/evaluations/guidance/impact_faq_theor)

Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol – Gwerthuso yn y Llywodraeth:  
<https://www.nao.org.uk/report/evaluation-government/>

Trysorlys EM – Y Llyfr Magenta:  
<https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book>

Trysorlys EM – Y Llyfr Gwyrdd:  
<https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government>

Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol – Fframwaith ar gyfer Ymchwil Moesegol 2010 (diwygiwyd Medi 2012) (PDF, 480Kb):  
[http://www.esrc.ac.uk/\\_images/framework-for-research-ethics-09-12\\_tcm8-4586.pdf](http://www.esrc.ac.uk/_images/framework-for-research-ethics-09-12_tcm8-4586.pdf)

Canllawiau Moesegol y Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol:  
<http://the-sra.org.uk/research-ethics/ethics-guidelines/>

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth – Sicrwydd Moesegol ar gyfer Ymchwil Cymdeithasol yn y Llywodraeth:

<http://www.civilservice.gov.uk/networks/gsr/publications>

## Atodiad 2 – Rhestr o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin

Isod ceir rhestr lawn o'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer datblygu gwledig. Os hoffech chi wybodaeth fanwl ynglŷn â'r meini prawf dyfarnu, dangosyddion cyffredin cysylltiedig, a gwybodaeth ychwanegol ar gyfer pob Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin, ewch i:

[https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/wp\\_evaluation\\_questions\\_2015.pdf](https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/wp_evaluation_questions_2015.pdf)

### Cwestiynau gwerthuso cysylltiedig â Meysydd Pwyslais

Maes Pwyslais		Cwestiwn Gwerthuso
P1A	Meithrin arloesedd a chydweithio a datblygu'r sylfaen wybodaeth mewn mannau gwledig.	1. I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi arloesedd a chydweithio ac wedi datblygu'r sylfaen wybodaeth mewn mannau gwledig.
P1B	Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd ac arloesedd ym maes coedwigaeth ac ymchwil, gan gynnwys er mwyn gwell rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol.	2. I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd ac arloesedd ym maes coedwigaeth ac ymchwil, gan gynnwys er mwyn gwell rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol?
P1C	Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaeth a choedwigaeth.	3. I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaeth a choedwigaeth?
P2A	Gwella perfformiad	4. I ba raddau y mae ymyraethau'r

	economaidd pob fferm a hwyluso'r gwaith o ailstrwythuro a moderneiddio ffermydd, gyda golwg yn benodol ar gynyddu cyfranogaeth a dealltwriaeth o'r farchnad ynghyd ag arallgyfeirio amaethyddol.	RhDG wedi cyfrannu at wella perfformiad economaidd, ailstrwythuro a moderneiddio'r ffermydd oedd yn rhan o'r prosiect drwy gynyddu yn benodol eu cyfranogaeth a'u dealltwriaeth o'r farchnad ynghyd â graddau eu harallgyfeirio amaethyddol?
P2B	Hwyluso dyfodiad ffermwyr medrus i'r sector amaethyddol, ac yn benodol, adfywiad cyffredinol.	<b>5.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi dyfodiad ffermwyr medrus i'r sector amaethyddol, ac yn benodol, adfywiad cyffredinol?
P3A	Gwella pa mor gystadleuol yw cynhyrchwyr sylfaenol drwy eu hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth drwy gyfrwng cynlluniau o ansawdd, ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol ac mewn cylchoedd cyflenwi bychain, grwpiau cynhyrchwyr a mudiadau rhyng-ganghennol.	<b>6.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cyfrannu at wella pa mor gystadleuol yw cynhyrchwyr sylfaenol drwy eu hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth drwy gyfrwng cynlluniau o ansawdd, ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol ac mewn cylchoedd cyflenwi bychain, grwpiau cynhyrchwyr a mudiadau rhyng-ganghennol?
P3B	Cefnogi rheoli ac atal risgiau ar ffermydd	<b>7.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi rheoli ac atal risgiau ar ffermydd?
P4A	Adfer, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000, ac mewn ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol neu rai eraill penodol, a ffermio sydd	<b>8.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi adferiad, gwarchodaeth a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000, ac mewn ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol neu rai eraill penodol, a ffermio sydd o Werth Mawr i

	o Werth Mawr i Natur, ynghyd â chyflwr tirweddau Ewropeaidd.	Natur, ynghyd â chyflwr tirweddau Ewropeaidd?
P4B	Gwella rheolaeth dŵr, gan gynnwys rheoli gwrtaith a phlaleiddiad.	<b>9.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi gwellhad o ran rheolaeth dŵr, gan gynnwys rheoli gwrtaith a phlaleiddiad.
P4C	Atal erydu pridd a gwella rheolaeth pridd	<b>10.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi'r gwaith o atal erydu pridd a gwella rheolaeth pridd?
P5A	Cynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd dŵr ym myd amaeth	<b>11.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cyfrannu at gynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd dŵr ym myd amaeth
P5B	Cynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd ynni yn y byd amaeth a phrosesu bwyd	<b>12.</b> I ba raddau mae ymyraethau'r RhDG wedi cyfrannu at gynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd ynni yn y byd amaeth a phrosesu bwyd?
P5C	Hwyluso cyflenwi a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddol, sgil-gynhyrchion, gwastraff a gweddillion ac o ddeunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd, er dibenion yr economi biolegol	<b>13.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cyfrannu at gyflenwi a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddol, sgil-gynhyrchion, gwastraff a gweddillion ac o ddeunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd, er dibenion yr economi biolegol
P5D	Lleihau allyrion nwyon tŷ gwydr ac amonia o'r byd amaeth	<b>14.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cyfrannu at leihau allyrion nwyon tŷ gwydr ac amonia o'r byd amaeth?

P5E	Meithrin y gwaith o gadw, dal a storio carbon yn y byd amaeth a choedwigaeth	<b>15.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi'r gwaith o gadw, dal a storio carbon yn y byd amaeth a choedwigaeth?
P6A	Hwyluso mentrau bychain i arallgyfeirio, ymsefydlu a datblygu, ynghyd â hwyluso creu swyddi	<b>16.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi mentrau bychain i arallgyfeirio, ymsefydlu a datblygu, ynghyd â hwyluso creu swyddi?
P6B	Meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig	<b>17.</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi cefnogi datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig?
P6C	Gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig	<b>18</b> I ba raddau y mae ymyraethau'r RhDG wedi gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig?

### Cwestiynau Gwerthuso sy'n berthnasol i agweddau eraill o'r RhDG

Agwedd arall o'r RhDG	Cwestiwn Gwerthuso
Perfformiad Gweithredol	<b>19.</b> I ba raddau y mae'r cytgordd rhwng blaenoriaethau a meysydd pwyslais wedi cynyddu effeithiolrwydd y RhDG?
Cymorth Technegol	<b>20.</b> I ba raddau y mae cymorth technegol wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion a nodir yn Erthygl 59(1) o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 ac Erthygl 51(2) o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013?
Rhwydweithiau Gwledig	<b>21.</b> I ba raddau y mae'r rhwydwaith gwledig

Cenedlaethol	cenedlaethol wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion a nodir yn Erthygl 54(2) o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013?
--------------	---

### Cwestiynau gwerthuso sy'n berthnasol i amcanion yr UE

Amcan yr UE	Cwestiwn Gwerthuso
Prif Dargedau'r UE ar gyfer 2020	<p><b>22.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at gyflawni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o gynyddu cyfradd gyflogaeth pobl 20-64 mlwydd oed i o leiaf 75%?</p> <p><b>23.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at gyflawni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o fuddsoddi 3% o gynnyrch domestig gros yr UE mewn ymchwil, datblygu ac arloesi?</p> <p><b>24.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu ar ei gyfer ac i gyflawni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o leihau allyrion nwyon tŷ gwydr o leiaf 20% o'i gymharu â lefelau 1990, neu 30% os yw'r amgylchiadau'n iawn, i gynyddu cyfran ynni adnewyddol yn nefnydd ynni terfynol i 20%, ac i gynyddu effeithlonrwydd ynni 20%?</p> <p><b>25.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at gyflawni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o leihau nifer yr Ewropeaid sy'n byw o dan y llinell dlodi genedlaethol?</p> <p><b>26.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at wella'r amgylchedd ac i gyflawni targed strategaeth Bioamrywiaeth yr UE o atal colli bioamrywiaeth a diraddio gwasanaethau ecosystem, ac i'w hadfer</p>
Amcanion y Polisi Amaethyddol Cyffredin	<p><b>27.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at amcan y Polisi Amaethyddol Cyffredin o feithrin cystadleuaeth ym myd amaeth?</p> <p><b>28.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at amcan y Polisi Amaethyddol Cyffredin o sicrhau rheolaeth</p>

	<p>gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithredu o ran yr hinsawdd?</p> <p><b>29.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at amcan y Polisi Amaethyddol Cyffredin o gael cydbwysedd o ran datblygiad tiriogaethol economïau a chymunedau gwledig a chreu a chynnal cyflogaeth?</p> <p><b>30.</b> I ba raddau y mae'r RhDG wedi cyfrannu at feithrin arloesedd?</p>
--	---